

YMGYNGHORIAD AR RYMOEDD YR HEDDLU I HYRWYDDO A CHYNNAL TREFN GYHOEDDUS



Swyddfa Gartref

Hydref 2011

Cynnwys

Cyflwyniad.....	3
Gwybodaeth crynodeb.....	4
Pennod 1: Adran 5 y Ddeddf Trefn Gyhoeddus 1986	5
Pennod 2: Grymoedd i alw am dynnu gorchuddion wyneb.....	10
Pennod 3: Grym i osod cyrffyw	12
Pennod 4: Cwestiynau ymgynghori.....	16

Cyflwyniad

Mae gan y Llywodraeth gyfrifoldeb i roi grymoedd i'r heddlu maent angen i ddiogelu'r cyhoedd ac eiddo er mwyn i gymunedau a dinasyddion deddfgadwol fyw mewn heddwch a diogelwch. Mae hyn yn arbennig o bwysig yn dilyn yr anrhefn gyffredin a welwyd ym mis Awst. Wrth ystyried unrhyw rymoedd newydd, rhaid i ni gydbwyso dyletswydd y Llywodraeth i ddiogelu'r cyhoedd gyda'r angen i ddiogelu hawliau sifil unigol.

Mae'r ymgynghoriad hwn yn ceisio mewnbwn ar dri maes o rymoedd yr heddlu y mae'r Llywodraeth yn ymroddedig i'w hadolygu: effaith y gair 'sarhaus' yn adran 5 y Ddeddf Trefn Gyhoeddus 1986; grymoedd newydd i ofyn am dynnu gorchuddion wyneb; a grymoedd newydd i osod cyrffiw. Rydym yn croesawu unrhyw farn ar unrhyw neu bob rhan o'r ymgynghoriad yn ddibynnol ar eich maes diddordeb, arbenigedd a gweithgaredd.

Mae rhan gyntaf yr ymgynghoriad yn delio â phryderon ynglŷn â'r gair 'sarhaus' yn **adran 5 y Ddeddf Trefn Gyhoeddus 1986**. Mae grwpiau hawliau sifil a ffydd wedi ymgyrchu ers amser maith am gael gwared ar y gair 'sarhaus' ar y sail ei fod yn troseddoli rhyddid mynegiant. Mae'r Llywodraeth wedi ymroi i adfer yr hawliau i brotest di-drais. Fodd bynnag, rydym eisiau ennill gwell dealltwriaeth o arwyddocâd y gair 'sarhaus' a'r amddiffyniad mae'n rhoi i grwpiau sydd wedi eu targedu gan droseddau casineb. Rydym eisiau asesu effaith bosibl diwygio ar allu'r heddlu i ddelio ag anrhefn, yn arbennig ymddygiad megis rhegi ar swyddogion yr heddlu a llosgi pabiau ar Ddydd y Cofio. Rydym eisiau archwilio'r trothwy ar gyfer arestio a p'un a yw newid deddfwriaethol neu ganllaw pellach ar y dehongliad o'r gyfraith y ffordd ymlaen.

Mae ail ran yr ymgynghoriad yn ceisio cynyddu'r ymroddiad a wnaed gan y Prif Weinidog yn dilyn yr anrhefn ddiweddar parthed grymoedd newydd i ofyn am **dynnu gorchuddion wyneb**. Wedi'r ysbeilio a'r llosgi bwriadol gan ysbeilwyr yn gwisgo mygydau i atal eu hadnabod, cyhoeddodd y Llywodraeth y byddai'r heddlu yn derbyn grymoedd estynedig i fynnu ar dynnu gorchuddion wyneb dan unrhyw amgylchiadau, ble roedd amheuaeth resymol o weithgaredd troseddol.

Mae'r ddogfen ymgynghori yn gwahodd sylwadau ar weithredu'r ymroddiad hwn.

Mae trydydd rhan yr ymgynghoriad yn ceisio barn ar a yw'r heddlu angen **grymoedd cyrffiw** ehangach i ddelio ag anrhefn a throsedd difrifol, mewn sefyllfaoedd ble nad yw grymoedd gwasgaru presennol o reidrwydd yn ddigon i ddiogelu'r cyhoedd. Mae cwestiynau penodol ar gyfranoledd ac ymarferoldeb ble byddem yn gwerthfawrogi barnau partneriaid allweddol a'r cyhoedd. Rydym yn ymgynghori ar p'un a oes a sut y mae cwmpas ar gyfer polisïau newydd yn y maes hwn.

Ceir manylion sut y gallwch ymateb i'r ymgynghoriad ym Mhennod 4 y ddogfen hon. Gobeithiwn y byddwch yn ymgysylltu yn y broses ymgynghori ac edrychwn ymlaen at dderbyn eich barnau.

Gwybodaeth crynodeb

DYDDIAD AGOR: DYDD IAU 13 HYDREF 2011
DYDDIAD CAU: DYDD GWENER 13 IONAWR
2012

CWMPAS YR YMGYNGHORIAD

Mae'r ymgynghoriad yn croesawu barnau gan bawb sydd â diddordeb mewn plismona trefn gyhoeddus a diogelwch cymunedol yng Nghymru a Lloegr, yn cynnwys y cyhoedd, ar dri maes o rymoedd yr heddlu:

- i) defnydd o'r gair 'sarhaus' yn adran 5 y Ddeddf Trefn Gyhoeddus 1986;
- ii) sut dylid ymestyn grymoedd yr heddlu i dynnu gorchuddion wyneb dan adran 60AA y Ddeddf Cyfiawnder Troseddol a Threfn Gyhoeddus 1994, a;
- iii) a yw'r heddlu angen grymoedd cyrffiw ehangach i ddelio ag anrhefn a throsedd difrifol.

SUT I YMATEB

Gallwch ddewis ymateb i unrhyw neu bob un o adrannau'r ymgynghoriad, yn ddibynnol ar eich maes penodol o arbenigedd a diddordeb.

Gallwch gwblhau'r ffurflen ar-lein yn <http://www.homeofficesurveys.homeoffice.gov.uk/v.asp?i=41428bwhlr>. Neu, gallwch gopïo a gludo'r cwestiynau yn y PDF i ddogfen Word ac anfon eich ymateb mewn neges e-bost at PolicePowers@homeoffice.gsi.gov.uk, neu trwy'r post at Police Powers Consultation, Public Order Unit, 5th Floor, Fry, Home Office, 2 Marsham Street, Llundain SW1P 4DF.

Dylech gysylltu â'r cyfeiriad uchod os ydych eisiau copi o'r papur ymgynghori hwn ar unrhyw fformat arall, e.e. Braille, print bras, sain.

Bydd crynodeb o'r ymatebion yn cael eu cyhoeddi cyn neu ynghyd ag unrhyw weithredu pellach.

EFFAITH OPSIYNAU

Mae gan y Llywodraeth ddiddordeb mewn clywed gan grwpiau cymunedol a ffydd a gweithwyr cyfiawnder troseddol ble gallai unrhyw gostau uniongyrchol neu anuniongyrchol godi o ganlyniad i'r cynigion hyn.

Byddwn yn paratoi asesiadau effaith ac yn defnyddio'r wybodaeth a ddarparwyd.

CYDRADDOLDEB

Mae'n bosibl y bydd y cynigion a amlinellwyd yn yr ymgynghoriad neu sy'n deillio o ganlyniad yn cael effaith ar faterion cydraddoldeb parthed oed, anabled, rhyw, hil neu gyfeiriadedd rhywiol. Mae'r Llywodraeth yn gwahodd barnau ar unrhyw faterion yn ymwneud â chydaddoldeb allai fod yn gysylltiedig â newid deddfwriaethol a sylwadau ar weithredoedd lliniarol.

CYFRINACHEDD AC YMWADIAD

Gellir trosglwyddo'r wybodaeth a anfonwch atom at gydweithwyr o fewn y Swyddfa Gartref, y Llywodraeth neu asiantaethau cysylltiedig. Yn ogystal, gellir cyhoeddi neu ddatgelu unrhyw wybodaeth a ddarperir, yn cynnwys gwybodaeth bersonol yn unol â chyfundrefnau mynediad i wybodaeth (mae'r rhain yn bennaf y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, y Ddeddf Diogelu Data 1998 a'r Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004). Os ydych am i'r wybodaeth a ddarparwch aros yn gyfrinachol, dylech fod yn ymwybodol fod yna God Ymarfer dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth y mae'n rhaid i awdurdodau cyhoeddus gydymffurfio ag o ac sy'n delio, ymysg pethau eraill, â rhwymedigaethau cyfrinachedd.

O ganlyniad i hyn, byddai'n ddefnyddiol pe gallech esbonio i ni pam yr ydych yn ystyried fod yr wybodaeth a roddoch i ni yn gyfrinachol. Os byddwn yn derbyn cais i ddatgelu'r wybodaeth, byddwn yn cymryd i ystyriaeth eich esboniad ond ni allwn roi sicrwydd y gellir cynnal cyfrinachedd dan bob amgylchiad. Sicrhewch fod eich ymateb wedi ei nodi'n glir os ydych am i'ch ymateb a'ch enw fod yn gyfrinachol. Bydd ymatebion cyfrinachol yn cael eu cynnwys mewn unrhyw grynodedd ystadegol o sylwadau a dderbyniwyd a barnau a fynegwyd. Bydd y Swyddfa Gartref yn prosesu eich data personol yn unol â Deddf Diogelu Data; gan amlaf bydd hyn yn golygu na ddatgelir eich data personol i drydedd blaid. Ni fyddwn yn cydnabod derbyn ymatebion unigol oni bai y gofynnir yn benodol am hynny.

Pennod 1: Adran 5 y Ddeddf Trefn Gyhoeddus 1986

AMCAN

- 1.1 Nod y rhan hwn o'r ymgynghoriad yw ystyried gwerth y gair 'sarhaus' yn adran 5, p'un a yw'n gyson gyda'r hawl i ryddid mynegiant a'r risgiau o'i dynnu o adran 5.

CEFNDIR

ADRAN 5 Y DDEDDF TREFN GYHOEDDUS 1986

Mae adran 5 yn ei gwneud yn drosedd i:

- Ddefnyddio geiriau neu ymddygiad bygythiol, ymosodol neu sarhaus, neu ymddygiad afreolus, neu arddangos unrhyw ysgrifennu, arwydd neu gynrychiolaeth weladwy arall sy'n fygythiol, ymosodol neu sarhaus, o fewn clyw neu olwg i unigolyn sy'n debygol o ddiodef aflonyddu, dychryn neu drallod trwy hynny.
- Gellir cyflawni trosedd dan yr adran hon mewn lle cyhoeddus neu breifat, ac eithrio na chyflawnir trosedd os yw'r geiriau neu ymddygiad yn cael eu defnyddio, neu'r ysgrifennu, arwydd neu gynrychiolaeth weladwy arall yn cael ei arddangos, gan unigolyn tu fewn i annedd a bod yr unigolyn arall hefyd tu fewn i'r annedd hwnnw neu un arall.
- Mae'n amddiffyniad i'r sawl a gyhuddir i brofi –
 - nad oedd ganddynt unrhyw reswm i gredu bod yna rhywun o fewn clyw neu olwg oedd yn debygol o fod wedi ei aflonyddu, dychryn neu drallodi, neu
 - eu bod tu fewn i annedd a heb unrhyw reswm i gredu y byddai'r geiriau neu ymddygiad a ddefnyddiwyd, neu'r ysgrifennu, arwydd neu

gynrychiolaeth weladwy arall a arddangoswyd, yn cael ei glywed neu weld gan rywun tu fewn i'r annedd hwnnw neu un arall, neu

- bod eu hymddygiad yn rhesymol.

Mae adran 5 yn drosedd ddiannod yn unig gyda'r gosb uchaf yn ddirwy o ddim mwy na lefel 3 ar y raddfa safonol (£1,000).

Dylid nodi trwy rinwedd adran 31(1) (c) y Ddeddf Trosedd ac Anrhefn 1998, gall adran 5 arwain at gyhuddiad o **drosedd hiliol neu grefyddol difrifolach** arwahanol. Mae trosedd yn hiliol neu grefyddol difrifolach os:

- ar adeg cyflawni'r drosedd, neu'n syth wedi gwneud hynny, mae'r troseddwr yn arddangos gelyniaeth tuag at ddiodefwr y drosedd yn seiliedig ar aelodaeth (neu aelodaeth dybiedig) y diodefeydd o grŵp hiliol neu grefyddol; neu
- mae'r drosedd wedi ei hysgogi (yn gyfan gwbl neu'n rhannol) gan elyniaeth tuag at aelodau grŵp hiliol neu grefyddol neu eu haelodaeth o'r grŵp hwnnw.

Mae adran 5 hiliol neu grefyddol difrifolach yn drosedd ddiannod yn unig gyda'r gosb uchaf yn ddirwy o ddim mwy na lefel 4 ar y raddfa safonol (£2,500).

Y DRAFODAETH AR ADRAN 5

- 1.2 Mae sefydliadau hawliau dynol megis Justice a Liberty, yn ogystal â'r Cydbwyllgor ar Hawliau Dynol (JCHR) wedi dadlau bod adran 5 y Ddeddf Trefn Gyhoeddus yn rhoi awdurdod eang i'r heddlu benderfynu pa iaith neu ymddygiad sy'n fygythiol, ymosodol neu sarhaus ac

"na ddylid byth troseddoli iaith neu ymddygiad sy'n sarhaus yn unig fel hyn".

- 1.3 Cafwyd ambell achos amlwg ble mae pregethwyr Cristnogol wedi eu harestio dan adran 5 am fynegi eu credau crefyddol, er y cafodd y cyhuddiadau eu gollwng cyn i'r achosion gyrraedd y llysoedd. Mewn achos arall, cafodd gwestywyr eu herlyn mewn

cysylltiad â thrafodaeth grefyddol gyda gwestai Mwslimaidd.

- 1.4 Mae dadleuon dros ddiddymu'r cyfeiriad at eiriau ac ymddygiad 'sarhaus' yn adran 5 yn seiliedig ar y farn y byddai cael gwared ar y gainc hon ('lliny') o'r drosedd yn effeithio'r achosion lefel isaf yn unig. Mae'n annhebygol o ddad-droseddoli ymddygiad difrifol, trallodus ac aflonyddgar allai gael ei gipio gan lynnau 'ymosodol' neu 'fygythiol' adran 5 neu gan ddarpariaethau amgen megis adran 2 yr Amddiffyniad rhag Aflonyddu 1997 neu adran 4A y Ddeddf Trefn gyhoeddus 1986 (aflonyddu, dychryn neu drallod bwriadol).
- 1.5 Mae dadleuon yn gwrthwynebu i ddiwygio wedi dibynnu ar gwestiynu'r dybiaeth bod ymddygiadau 'sarhaus' o reidrydd yn radd is nag ymddygiadau 'sarhaus'; cwestiynau a allai cael gwared ar 'sarhaus' effeithio'n andwyol ar dargedu troseddau casineb a deall a fyddai'n cael ei ddehongli gan y llysoedd fel lleihau'r trothwy ar gyfer ymddygiad amharchus.
- 1.6 Mae yna hefyd gwestiwn ynglŷn â p'un a ddylai pryderon yn ymwneud ag adran 5 yn cael eu ffocysu ar y gyfraith ei hun neu'r dehongliad o'r gyfraith ac, i'r perwyl hwnnw, fe gyhoeddodd Cymdeithas Prif Swyddogion yr Heddlu (ACPO) ganllaw diwygiedig (Keeping the Peace) i swyddogion yr heddlu yn Rhagfyr 2010 i'w helpu i ddelio'n fwy effeithiol gydag achosion adran 5 a rhoi ystyriaeth ddyledus i faterion rhyddid mynegiant.
- 1.7 Mae canllaw ACPO yn nodweddu elfennau cyfansoddol adran 5 fel **gweithred** (defnyddio geiriau neu ymddygiad bygythiol, ymosodol neu sarhaus, neu'n afreolus), **ymwybyddiaeth** (y gallai'r geiriau neu ymddygiad fod yn fygythiol, ymosodol neu sarhaus, neu'n afreolus) ac **effaith** (bod o fewn golwg neu glyw i rywun sy'n debygol o deimlo wedi eu haflonyddu, dychryn neu drallodi).

DEDDFWRIAETH/CYFRAITH ACHOSION

- 1.8 Mae'n bwysig gwahaniaethu rhwng adran 4A ac adran 5 y Ddeddf Trefn Gyhoeddus 1986. Mae adran 4A yn creu trosedd arwahanol o aflonyddu, dychryn neu drallod bwriadol. Dan adran 4A, mae unigolyn yn euog o drosedd os yw ef/hi yn defnyddio geiriau neu ymddygiad bygythiol, ymosodol neu sarhaus, neu ymddygiad afreolus gyda'r **bwriad** o aflonyddu, dychryn neu drallodi rhywun oni bai ei fod yn wrthrychol resymol. Mae gan adran 4A drothwy uwch nag adran 5, ble mae unigolyn yn euog o drosedd os yw ef/hi yn defnyddio geiriau neu ymddygiad bygythiol, ymosodol neu sarhaus, neu ymddygiad afreolus sy'n debygol o aflonyddu, dychryn neu drallodi rhywun oni bai ei fod yn wrthrychol resymol. Yn yr achos hwn, mae **ymwybyddiaeth** achos o'r effaith yn ddigonol, yn wahanol i adran 4A ble mae angen bwriad.
- 1.9 Mae Erthygl 10 o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol yn diogelu'r hawl i ryddid mynegiant. Mae'r hawl hwn yn cynnwys y rhyddid i goleddu barnau ac i dderbyn a dosbarthu gwybodaeth a syniadau heb amhariad gan awdurdod cyhoeddus a heb ystyried ffiniau. Nid yw Erthygl 10 yn hawl diamod. Mae'n datgan bod ymarfer y rhyddidau hyn, gan fod dyletswyddau a chyfrifoldeb ymhlwg ynddo, yn ddibynnol ar y math o ddefodau, amodau, cyfyngiadau neu gosbau a ragnodir gan y gyfraith ac sy'n angenrheidiol mewn cymdeithas ddemocrataidd, er lles diogelwch cenedlaethol, cyfanrwydd tiriogaethol neu ddiogelwch y cyhoedd, er mwyn atal anhrefn neu drosedd, gwarchod iechyd neu foesau, gwarchod enw da neu hawliau pobl eraill, atal datgelu gwybodaeth a dderbyniwyd yn gyfrinachol, neu er mwyn cadw awdurdod ac amhleidioldeb y farnwriaeth.
- 1.10 Yn Percy v DPP (2001) fe ategwyd bod adran 5 yn bodloni'r cydbwysedd angenrheidiol rhwng yr hawl i ryddid mynegiant a hawliau eraill i beidio cael eu sarhau na thrallodi. Ategwyd hefyd mai ymddygiad neu ymarweddiad sy'n ddireswm ac wedi ei fwriadu i sarhau yw testun y drosedd yn hytrach na'r

mynegiant cyhoeddus o neges neu farn ymosodol. Mae canllaw ACPO yn egluro mai'r allwedd yw gwahaniaethu rhwng y neges neu farn sy'n cael ei gyfathrebu a'r modd y mae'n cael ei gyfleu.

1.11 Yn DDP v Orum (1989), roedd y llysoedd yn glir bod swyddog yr heddlu yn gallu bod yn 'unigolyn sy'n debygol o gael ei aflonyddu, ddychryn neu drallodi' gan 'eiriau neu ymddygiad bygythiol, ymosodol neu sarhaus' i ddibenion adran 5 y Ddeddf Trefn Gyhoeddus 1986. Fodd bynnag, fe eglurodd bod disgwyl i swyddogion yr heddlu arddangos elfen o ddewrder ac y gallai ynadon ystyried cynefindra swyddogion yr heddlu gyda'r geiriau ac ymddygiad a welir yn arferol mewn achosion o ymddygiad afreolus.

YSTYRIAETHAU POLISI

1.12 Mae'r ymgynghoriad yn anelu at ystyried pump agwedd allweddol defnydd o'r gair 'sarhaus':

- **Perthnasedd:** arwyddocâd 'sarhaus' fel enghraifft arwahanol o ymddygiad troseddol ac a fyddai llinynnau 'bygythiol' ac 'ymosodol' adran 5 yn delio â'r rhan fwyaf o ymddygiad sy'n deilwng o droseddoli.
- **Cydbwysedd:** p'un a yw'r gair 'sarhaus' yn adran 5 yn darparu ymateb cymesur ac yn bodloni'r cydbwysedd angenrheidiol rhwng yr hawl i ryddid mynegiant a hawliau eraill i beidio cael eu haflonyddu, dychryn na thrallodi. Mae hyn yn cynnwys ystyried p'un a yw'r trothwy ar gyfer arestio wedi ei osod ar y lefel gywir.
- **Effaith:** diddymu 'sarhaus' ar droseddau hiliol a chrefyddol difrifolach (gweler yr adran Cefndir am fanylion) a gallu'r heddlu i daclo troseddau casineb ac anrhefn.
- **Cwmpas:** ehangder neu ystod 'sarhaus' a'i ddefnyddioldeb wrth gipio anrhefn gyhoeddus lefel isel, e.e. rhegi ar swyddogion yr heddlu.
- **Dehongliad:** p'un a yw mesurau diogelu, megis yr amddiffyniad 'rhesymoldeb' a chanllaw i swyddogion yr heddlu, yn ddigonol i ddelio â phryderon.

ASTUDIAETHAU ACHOS ADRAN 5

Mae'r canlynol yn enghreifftiau o achosion adran 5 aflwyddiannus. Dylid nodi bod troseddwy'r yn cael eu cyhuddo dan adran 5 heb ddynodi'r 'llinyr' penodol o'r drosedd sy'n cael ei alw i rym sy'n ei gwneud yn anodd asesu effaith cael gwared ar y gair 'sarhaus'. Nid yw'n glir ychwaith p'un a oedd erlyniadau, ble y'i cychwynwyd, yn dibynnu'n benodol ar y gair 'sarhaus'.

CEFFYL HEDDLU 'HOYW'

Yn 2006, gofynnodd myfyriwr ym Mhrifysgol Rhydychen i swyddog heddlu marchogol a oedd yn sylweddoli bod ei geffyl yn hoyw yn ystod noson allan gyda ffrindiau wedi ei arholiadau terfynol. Cafodd ei arestio dan adran 5 y Ddeddf Trefn Gyhoeddus am wneud sylwadau homoffobig wedi iddo wrthod talu dirwy yn y fan a'r lle o £80 a threuliodd noson yng nghell yr heddlu cyn i'r cyhuddiad gael ei ollwng.

PROTESTIWR SEIENTOLEG

Cyhuddodd heddlu Dinas Llundain unigolyn yn ei ardegau dan adran 5 am brotestio tu allan i Bencadlys Eglwys Seientoleg yn Llundain ym Mai 2008 gyda hysbyslen yn datgan, "Nid yw Seientoleg yn grefydd, mae'n gwlt peryglus". Gollyngwyd y cyhuddiad pan bennodd Gwasanaeth Erlyn y Goron nad oedd y gair 'cwl't' yn 'ymosodol n sarhaus' ac na fyddai gweithredu pellach.

GWESTYWYR CRISTNOGOL

Cyhuddwyd gwestywyr Cristnogol o ofyn i westai Mwslimaidd a oedd yn llofruddiwr neu'n derfysgwr am ei bod yn gwisgo 'hijab' yn eu gwesty yn Rhagfyr 2009. Dywedwyd wrth y llys i'r gŵr alw'r Proffwyd Muhammad yn llofrudd ac arglwydd rhyfel tra bod ei wraig wedi dweud bod y wisg Islamaidd yn cynrychioli gorthrwm a math o gaethiwed. Gwadodd y cwpl hyn a honni i'r gwesteion ddweud wrthynt mai is broffwyd oedd yr Iesu ac nad oedd y Beibl yn wir. Wedi prawf o ddeuddydd, fe wrthododd y barnwr yr achos ar y sail nad oedd yn bosibl dibynnu ar adroddiad tyst yr erlyniad.

PREGETHWYR STRYD CRISTNOGOL

Yn Ebrill 2010, cafodd pregethwr stryd Cristnogol ei arestio a'i gyhuddo gyda throsedd trefn gyhoeddus pan ddywedodd wrth rywun oedd yn pasio heibio a swyddog cymorth cymunedol yr heddlu hoyw ei fod, fel Cristion, yn credu bod gwrywydiaeth yn un o nifer o bechodau sy'n mynd yn erbyn gair Duw. Gollyngodd Gwasanaeth Erlyn y Goron yr achos cyn iddo fynd i'r llys ar y sail nad oedd digon o dystiolaeth i ddarparu rhagolwg realistig o erlyniad.

Mae yna achosion ble mae pobl wedi eu herlyn yn llwyddiannus dan adran 5. Dibynnodd yr achos 'llosgi pabiau' trosedd yn benodol ar yr agwedd 'sarhaus' o'r drosedd, ac fe ategwyd euogfarn y diffynnydd ar apêl. Mae'r achos hwn yn herio'r dybiaeth bod ymddygiadau 'sarhaus' yn ôl eu natur yn llai difrifol nag ymddygiadau 'ymosodol'.

HH: PREGETHWYR STRYD

Mewn gwrthdystiad stryd yn Bournemouth yn Hydref 2001, daliodd HH, pregethwr stryd, arwydd yn arddangos y geiriau "Mae Iesu'n Rhoi Heddwch, Mae Iesu'n Fyw, Stopiwch Anfoesoldeb, Stopiwch Lesbiaeth, Iesu yw'r Arglwydd". Fe ymgasglodd grŵp ac roedd rhai pobl yn flin ac wedi eu tralodi. Daeth swyddogion yr heddlu i'r fan a gofyn i HH dynnu'r arwydd i lawr a gadael yr ardal. Cyhuddwyd HH, ei ddirwyo a'i euogfarnu o drosedd dan adran 5. Bu farw cyn y gwrandawyd ei apêl, ac fe wrthododd y Llys Adrannol yr apêl yn Ionawr 2004. Roedd yr ynadon o'r farn bod y geiriau ar yr arwydd yn sarhaus ac yn achosi tralod i'r rhai oedd yn bresennol a bod yr amddiffynnydd yn ymwybodol o hyn.

PROTESTWYR GWRTH RYFEL LUTON

Bu protestwyr gwrth ryfel yn gweiddi “terfysgwyr” a dal hysbyslenni yn datgan “Ewch i Uffern Filwyr Angliaidd” a “Lladdwyr Basra” wrth i 200 o filwyr orymdeithio trwy ganol tref Luton i nodi eu dychweliad o Irac. Cafodd y protestwyr eu cadw am droseddau trefn gyhoeddus. Wrth gael y diffynyddion yn euog, dywedodd y Barnwr: “Nid oes gennyf unrhyw amheuaeth ei bod yn sarhaus i ddweud wrth filwyr i fynd i uffern ac i alw milwyr yn llofruddwyr, treiswyr a lladdwyr babanod. Mae nid yn unig yn sarhaus i'r milwyr, ond hefyd i ddinasyddion Luton oedd allan ar y strydoedd y diwrnod hwnnw i anrhydeddu a chroesawu'r milwyr adref. ...Nid yw'r ffaith nad oeddynt yn bwriadu i'w sylwadau fod yn sarhaus yn cyfateb i amddiffyn yn y gyfraith. Roeddynt yn gwbl ymwybodol y byddai brawddegau ysgytiol dan amgylchiadau o'r fath yn achosi trallod. ...Ond roedd hyn yn mynd tu hwnt i drosglwyddo neges, roedd yn croesi'r ffin o brotest gyfreithiol ac yn ysgogi ac achosi trallod.” Pasiodd y barnwr ryddhad amodol o 2 flynedd ar bob un o'r pump o ddynion a'u gorchymyn i dalu £500 o gostau.

LLOSGWYR Y PABIAU

Cafwyd aelod o'r Mwslimiaid yn erbyn Crwsadau ac unigolyn arall yn euog o sarhad “bwriadol” i'r meirw a'r rhai sy'n eu galaru pan losgodd ddau babi plastig mawr yn ystod dau funud o dawelwch ar 11 Tachwedd 2010. Yn ôl y barnwr, “Mae'n sarhau'r atgof o'r meirw. Mae'n sarhau'r rhai sy'n coffau'r meirw. Mae'n sarhau'r rhai sydd wedi colli anwyl. Mae'n sarhau'r rhai sy'n defnyddio'r achlysur hwn i ddangos yn gyhoeddus eu diolchgarwch am y bywydau a aberthwyd. ...Yn yr amgylchiadau a ddigwyddodd yn yr achos hwn, mae galw ar gyfraith droseddol i amharu ar ryddid mynegiant yn gymesur. Nid yw'r amddiffyn o resymoldeb yn darbwylo yma.”

Pennod 2: Grymoedd i alw am dynnu gorchuddion wyneb

AMCAN

- 2.1 Nod yr ymgynghoriad ar orchuddion wyneb yw ceisio barnau ar ategu darpariaethau presennol i fynnu tynnu gorchuddion wyneb yn adran 60AA y Ddeddf Cyfiawnder Troseddol a Threfn Gyhoeddus 1994 i gryfhau'r ymateb i fygythiad ac anrhefn wirioneddol.

CEFNDIR

ADRAN 60/60AA Y DDEDDF CYFIAWNDER TROSEDDOL A THREFN GYHOEDDUS 1994

Adran 60/60AA: Os yw swyddog o reng arolygydd neu uwch yn credu'n rhesymol bod bygythiad o drais difrifol neu os yw pobl yn cario arfau ymosodol, gall ef neu hi roi awdurdodiad adran 60 ar waith. Golyga hyn y gall yr heddlu chwilio pobl heb fod angen amheuaeth resymol am arfau bygythiol, a gofyn am dynnu (neu atafaelu) mygydau, sgarffiau ac ati y mae'r heddlu'n credu'n rhesymol i fod yn cael eu defnyddio i atal adnabod.

Adran 60AA: Neu, os yw swyddog o reng arolygydd neu uwch yn credu'n rhesymol bod pobl yn debygol o gyflawni troseddau yn yr ardal, gall ef neu hi roi awdurdodiad 60AA ar waith sy' caniatáu i'r heddlu ofyn am dynnu (neu atafaelu) mygydau, sgarffiau ac ati y maent yn credu'n rhesymol i fod yn cael eu defnyddio i atal adnabod.

Dan adran 60AA, rhaid i'r swyddog sy'n arfer y grym gredu'n rhesymol bod rhywun yn gwisgo eitem yn gyfan gwbl neu'n bennaf i'r diben o beidio cael eu hadnabod, nid yn unig am ei fod, yn wir, yn cuddio eu hunaniaeth. Mae yna hefyd rym i atafaelu eitemau o'r fath ble mae'r swyddog yn credu bod rhywun yn bwriadu eu gwisgo i'r diben hwn. Nid oes unrhyw rym i atal a chwilio am gudd wisgoedd. Mae canllaw yn darparu ble gall fod sensitifrwydd crefyddol ynglŷn â gorchymyn tynnu gorchudd wyneb neu ben, y dylai'r swyddog ganiatáu i'r eitem gael ei dynnu o olwg y cyhoedd. Ble fo'n ymarferol, dylid tynnu'r eitem ym mhresenoldeb swyddog o'r un rhyw â'r unigolyn ac allan o olwg unrhyw un o'r rhyw arall.

Gellir rhoi awdurdod dan adran 60AA i gwnstabl ofyn i dynnu cuddwisg a'u hatafael os yw'r swyddog awdurdodi yn credu'n rhesymol y gallai gweithgareddau ddigwydd mewn unrhyw gymdogaeth yn ardal swyddog yr heddlu sy'n debygol o gynnwys comisiynu troseddau ac mae'n gyfleus iddynt ddefnyddio'r grymoedd hyn i atal neu reoli'r gweithgareddau hyn. Rhaid bod sail wrthrychol i hyn, er enghraifft: cudd-wybodaeth neu wybodaeth berthnasol, megis hanes o elyniaeth a thrais rhwng grwpiau penodol; adroddiadau bod unigolion yn cario arfau'n rheolaidd mewn cymdogaeth benodol; neu achosion blaenorol o droseddau'n cael eu cyflawni wrth wisgo gorchudd wyneb neu i guddio hunaniaeth.

Gall swyddog o reng arolygydd neu uwch yn unig roi awdurdodiad dan adran 60AA, yn ysgrifenedig, gan ddynodi ar ba sail y'i rhoddir, y gymdogaeth ble gellir arfer y grymoedd a'r cyfnod o amser pan fydd mewn grym. Ni fydd y cyfnod a awdurdodir yn ddim hirach nag ymddengys i fod yn rhesymol angenrheidiol i atal, neu geisio atal cyflawni troseddau. Ni all fod yn fwy na 24 awr. Rhaid i arolygydd sy'n rhoi awdurdodiad, cyn gynted â phosibl, hysbysu swyddog o reng uwch-arolygydd neu uwch. Gall y swyddog hwn gyfarwyddo ymestyn yr awdurdodiad am 24 awr ymhellach, os ystyrir bod angen.

Mae unigolyn sy'n methu tynnu eitem, pan ofynnir iddynt wneud gan gwnstabl, yn atebol, ar euogfarn ddiannod, i garchariad am gyfnod o ddim mwy nag un mis neu i ddirwy nad yw'n fwy na lefel 3 ar y raddfa safonol (£1,000) neu'r ddau.

TYNNU GORCHUDDION WYNEB: YR ANGEN AM RYMOEDD NEWYDD

- 2.2 Yn ei ddatganiad gerbron sesiwn frys o'r Senedd a gynullwyd i drafod ymatebion i'r terfysgoedd, fe esboniodd y Prif Weinidog mai dim ond mewn lleoliad daearyddol penodol y gall yr heddlu dynnu mygydau wyneb ac am gyfnod cyfyngedig o amser. Fe gyhoeddodd y byddai'n rhoi awdurdod i'r heddlu dynnu gorchuddion wyneb "dan unrhyw amgylchiadau" cyn belled a bod amheuaeth resymol o weithgaredd troseddol. Dywedodd yr Ysgrifennydd Gwladol hefyd, "Rwy'n fodlon ystyried grymoedd a fyddai'n gwahardd hwligniaid hysbys o raliau a gorymdeithiau a byddaf yn edrych i mewn i'r grymoedd sydd gan yr heddlu eisoes i orfodi tynnu gorchuddion wyneb a balaclafas. Os yw'r heddlu angen mwy o gymorth i wneud eu gwaith, ni fyddaf yn oedi wrth ei roi iddynt."
- 2.3 Ar hyn o bryd gall swyddogion fynnu ar dynnu gorchuddion wyneb yn unol ag awdurdodiad gan uwch swyddog (dan adran 60AA) sy'n dynodi'r lleoliad a'r cyfnod amser i arfer y grym. Gall hyn achosi oedi biwrocrataidd a llesteirio ymateb yr heddlu i anrhefn dorfol.
- 2.4 Nid yw'r cynnig i roi grymoedd newydd i dynnu gorchuddion wyneb yn ymwneud â hil, crefydd na chredo nac amddifadu grwpiau penodol o'u hunaniaeth ddiwylliannol. Mae'n ymwneud â rhoi'r offer i swyddogion maent angen i adnabod rhywun allai fod dan amheuaeth neu droseddwr mewn trosedd.
- 2.5 Mae'r ymgynghoriad hwn yn ceisio barn ar ymarferoldeb cryfhau grymoedd presennol: p'un a yw hyn yn golygu caniatáu i swyddogion yr heddlu ar y stryd ddefnyddio eu doethineb i alw am dynnu gorchuddion wyneb heb geisio caniatâd ysgrifenedig gan reng uwch a beth yn union ddylai'r trothwy ar gyfer y grym newydd fod. Byddai hyn yn atal anrhefn rhag ymgasglu; yn arf ataliol effeithiol i weithgaredd troseddol; ac yn cyflymu'r ymateb

i drosedd. Rydym hefyd yn ceisio mewnbwn ar fesurau diogelwch i sicrhau y defnyddir y grymoedd newydd yn gymesur.

YSTYRIAETHAU POLISI

- 2.6 Mae'r ymgynghoriad yn anelu at ystyried pump agwedd allweddol ar y defnydd o rymoedd newydd i dynnu gorchuddion wyneb:
- **Cwmpas:** sut ddylid fframio'r grymoedd newydd i ganiatáu i swyddogion dynnu gorchuddion wyneb heb awdurdodiad gan uwch swyddog.
 - **Sbardun:** p'un a allai amheuaeth resymol o weithgaredd troseddol fod yn sbardun i'r grym newydd.
 - **Cydbwysedd:** sut i sicrhau bod y grymoedd newydd yn gymesur ac yn gytbwys gyda hawliau sifil.
 - **Amddiffyniadau:** p'un ai a sut y byddai canllaw/hyfforddiant, monitro a darpariaethau preifatrwydd yn sicrhau bod y grymoedd yn cael eu defnyddio'n synhwyrol a sensitif.
 - **Cosbau:** a ddylid gwneud cosbau am ddiffyg cydymffurfiaid yn fwy llym.

Pennod 3: Grym i osod cyrffyw

AMCAN

- 3.1 I geisio barn partneriaid allweddol a'r cyhoedd ar p'un a ddylai'r heddlu gael grymoedd atodol i orfodi cyrffyw ac i atal anrhefn neu droseddolrwydd, ac ar y trefniadau ac amddiffyniadau trosolwg fyddai eu hangen i sicrhau bod defnydd o unrhyw rymoedd newydd yn angenrheidiol a chymesur.

CEFNDIR

- 3.2 Yn dilyn y cynnwrf ym mis Awst, cyhoeddodd y Prif Weinidog y byddai'r Llywodraeth yn edrych ar 'y defnydd o rymoedd gwasgaru presennol ac a yw grym cyrffyw ehangach yn angenrheidiol'. Mae hyn yn rhan o raglen gydunol o waith ar draws Llywodraeth i ddelio â materion a amlygwyd gan y digwyddiadau hynny sy'n cynnwys gwaith ar gangiau, teuluoedd trafferthus a thactegau'r heddlu. Wrth symud ymlaen â'r rhaglen honno, rydym eisiau cymryd y cyfle i edrych nid yn unig ar yr aflonyddwch ei hun, ond hefyd ar yr achosion sylfaenol, ac ni nodi meysydd ble mae cwmpas ar gyfer ymagwedd ataliol i ddiogelu'r cyhoedd. Mae'r ymagwedd hon yn ceisio ymestyn ein harchwiliad o rymoedd newydd posibl.
- 3.3 Ar hyn o bryd mae gan yr heddlu ystod o rymoedd i wasgaru unigolion neu grwpiau ar sail trosedd neu ymddygiad gwrthgymdeithasol, ac i fynd â phlant heb gwmni adref neu i le diogel.

GRYMOEDD GWASGARU DAN Y DDEDDF YMDDYGIAD GWRTHGYMDEITHASOL 2003 A'R DDEDDF LLEIHOU TROSEDDU TREISGAR 2006

Mae'r grymoedd gwasgaru a roddwyd i'r heddlu yn cynnwys:

- Y grym i ddynodi¹ ardal fel 'Parth Gwasgaru', gyda chaniatâd yr awdurdod lleol perthnasol, ac i gyfeirio unigolyn neu grŵp adael y parth hwnnw ac i beidio dychwelyd am hyd at 24 awr, os oes gan swyddog sail resymol dros gredu bod eu presenoldeb neu ymddygiad wedi arwain at, neu'n debygol o arwain at, aflonyddu ar, ddychryn, brawychu neu drallodi aelod o'r cyhoedd; ac
- Y grym i gyfarwyddo² unigolyn 10 oed neu hŷn i adael unrhyw ardal ac i beidio dychwelyd am hyd at 48 awr, os yw swyddog yn credu bod eu presenoldeb yn debygol o gyfrannu at drosedd ac anrhefn yn gysylltiedig ag alcohol a bod angen rhoi'r cyfarwyddyd hwnnw i dynnu neu leihau'r tebygolrwydd y bydd y drosedd neu anrhefn yn digwydd. Mae hyn yn cynnwys y grym i fynd â rhywun dan 16 oed adref, neu i le diogel cydnabyddedig, wedi iddynt dderbyn cyfarwyddyd i adael ardal.

1 Dan adrannau 30-32 o'r Ddeddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol 2003
2 Dan adran 27 y Ddeddf Lleihau Troseddau Treisgar 2006

3.4 Ar wahân i'r Ddeddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004 (sy'n rhoi grymoedd i'r Llywodraeth yn hytrach na'r heddlu), mae grymoedd cyrffwy presennol yr heddlu wedi eu cyfyngu i'r grym i gyflwyno cyrffwy ar unigolyn yn amod mechniaeth yr heddlu. Rhoddodd y llywodraeth flaenorol hefyd rym i Brif Gwnstablaid ac awdurdodau lleol gyflwyno cyrffwy lleol ar blant dan 16 oed, gyda chaniatâd yr Ysgrifennydd Cartref. Fodd bynnag, ni chafodd y grym hwn (a elwid yn 'Gynllun Cyrffwy Plentyn Lleol') fyth ei ddefnyddio, a cafodd ei ddiddymu yn y Ddeddf Plismona a Throsedd 2009.

3.5 Rydym eisoes wedi edrych ar rymoedd gwasgaru presennol yr heddlu yn rhan o adolygiad ehangach y Swyddfa Gartref o ddeddfwriaeth wrthgymdeithasol, a chanfod y gallant fod yn ddryslyd, biwocrataidd ac araf i gydio, gyda nifer o awdurdodau cyhoeddus angen ymgynghoriad cyhoeddus cyn y gellir cyflwyno 'Parth Dosbarthu'. Fe ymgynghorom yn gynharach eleni ar gynnig i symleiddio'r grymoedd hynny i un 'Grym Cyfeirio' a fyddai'n cael gwared ar yr angen i ddynodi 'Parth Gwasgaru' o flaen llaw, gan ganolbwyntio ar yr un pryd ar ymddygiad unigolyn neu grŵp yn hytrach na'u presenoldeb yn unig (sy'n rhan o'r prawf presennol). Byddwn yn dwyn polisi manylach ymlaen yn hwyrach yn yr hydref, yn rhan o'n pecyn o fesurau mwy effeithiol i ddelio ag ymddygiad gwrthgymdeithasol.

CYRFFYW

3.6 Dangosodd yr aflonyddwch a ddigwyddodd ledled Lloegr yn Awst yr effaith ddifrifol y gall anrhefn gyhoeddus a throseddolrwydd gael ar ddiodefwyr, cymdogaethau a busnesau, rhywbeth a adlewyrchwyd yn y dedfrydau llym a roddwyd i'r rhai oedd yn cymryd rhan. Mae'r Llywodraeth yn ymroddedig i sicrhau bod gan yr heddlu'r holl rymoedd maent angen i ddiogelu a sicrhau'r cyhoedd, ac i atal difrod i gymunedau ac eiddo yn y dyfodol.

3.7 Gall fod amgylchiadau ble gallai cyrffwy – cadw pobl oddi ar y strydoedd yn gyfan gwbl – fod yn

fwy defnyddiol i'r heddlu na hyd yn oed grym symlach i wasgaru pobl unwaith y bydd problem wedi dechrau datblygu. Er enghraifft, nid yw grymoedd gwasgaru yn addas i ddelio â nifer fawr o bobl, gan fod yn rhaid i'r swyddog dan sylw gofnodi ei sail ef neu hi i'w defnyddio ym mhob achos. Gallai cyrffwy hefyd fod yn ddefnyddiol i atal pobl rhag teithio i ardal i achosi problemau, fel yr ymddengys i fod yn wir gyda chyfran sylweddol o droseddwyr oedd yn cymryd rhan yn yr aflonyddwch diweddar. Efallai'n bwysicach, o ystyried bod 45% o'r bobl ifanc a gyhuddwyd am droseddau yn gysylltiedig i'r anrhefn heb unrhyw rybuddion nac euogfarnau blaenorol, gallai cyrffwy fod yn arf bwerus i atal troseddoli pobl ifanc – yn achos anrhefn dreisgar, ac yn fwy cyffredinol – sy'n cael effaith hirdymor enfawr ar eu cyfleon bywyd.

3.8 Ymddengys bod rhywfaint o gefnogaeth ymhlith y cyhoedd dros ddefnyddio cyrffwy, parthed yr anrhefn ddiweddar ac i ddelio â materion ehangach trosedd ac ymddygiad gwrthgymdeithasol. Er enghraifft, dywedodd 82% o ymatebwyr mewn arolwg diweddar ar rymoedd yr heddlu y byddent yn cefnogi defnydd o gyrffwy wrth ddelio â therfysgwyr³. Cyn hynny, canfu arolwg yn 2008 bod 88% o'r rhieni yn cefnogi cyrffwy o 9pm i blant ifanc, a byddai 85% yn cefnogi cyrffwy o 10pm i blant dan 16 oed⁴.

3.9 Fodd bynnag, nid yw cyflwyno grymoedd newydd a allai gael eu defnyddio i osod cyfyngiadau ar ryddid symudiad pobl yn gam i'r Llywodraeth ei gymryd heb ystyried gofalus, ac rydym yn credu y byddai angen i unrhyw rymoedd cyrffwy newydd gydbwysu'r egwyddorion canlynol:

- **Cyflymder** – yr angen i'r heddlu weithredu'n fuan i ddiogelu'r cyhoedd.
- **Cyfranoled** – byddai angen i unrhyw gyfyngiadau ar symudiadau unigolion fod yn gyfrannol i niwed posibl, neu'r troseddolrwydd dan sylw.

3 YouGov, Awst 2011

4 YouGov, Gorffennaf 2008

- **Doethineb proffesiynol** – dylai penderfyniadau gweithredol ar ddefnydd o unrhyw rymoedd cyrffiw newydd fod yn fater i'r heddlu yn unig.
- **Trosolwg** – dylai defnydd o unrhyw rymoedd fod yn amodol i drosolwg ac amddiffyniadau caeth.
- **Ataliad** – dylai nod defnyddio unrhyw rymoedd cyrffiw newydd fod i atal trosedd ac anrhefn.

3.10 Felly rydym yn ceisio barnau partneriaid a'r cyhoedd ar p'un a allai grymoedd cyrffiw atodol i'r heddlu fod yn ddefnyddiol ac y gellir eu cyfiawnhau, ac yn benodol ar rym cyrffiw cyffredinol, cyfyngedig. Rydym hefyd yn awyddus i archwilio a oes unrhyw rymoedd atodol allai helpu'r heddlu i ddilyn ymagwedd fwy ataliol i drosedd, yn arbennig troseddau ieuenctid.

CYRFFIW CYFFREDINOL CYFYNGEDIG

3.11 Nod grym cyrffiw cyffredinol i'r heddlu fyddai i roi arf weithredol i'r heddlu i gadw'r cyhoedd oddi ar y strydoedd mewn lleoliad penodol, am gyfnod penodol, er mwyn atal neu ddelio ag anrhefn ddifrifol. Gellid defnyddio hyn yn hytrach na grymoedd gwasgaru mewn sefyllfaoedd allai gynnwys nifer fawr o bobl (naill ai'n debygol o droseddu, neu dan risg o niwed), neu ble mae'r heddlu angen gwacau ardal o bobl yn gyflym am resymau iechyd a diogelwch.

YSTYRIAETHAU POLISI

3.12 Ein cynnig fyddai i gael grym heddlu gweithredol i gadw pobl iddi ar y strydoedd mewn ardal ddaearyddol gyfyngedig, am gyfnod cyfyngedig, pan bennir bod hyn yn angenrheidiol er mwyn diogelu'r cyhoedd rhag anrhefn ddifrifol. Byddai uwch swyddog o'r heddlu yn gwneud y penderfyniad yn seiliedig ar gudd-wybodaeth gredadwy o fygythiad difrifol o anrhefn o'r fath yn y lle hwnnw ac ar yr adeg honno. Rydym yn ystyriol y bydd angen cadw profion ar angen a chymesuredd yn y gyfraith. Mae'r ymgynghoriad hwn yn ceisio ystyried yr agweddau allweddol canlynol o rym newydd arfaethedig o'r fath:

- **Cwmpas:** Rydym yn glir mai dim ond dros ardal ddaearyddol ddiffiniedig bendant y dylai cyrffiw fod yn weithredol ac am gyfnod diffiniedig o amser. Mae gennym ddiddordeb mewn barnau ar beth ddylai'r uchafswm ardal a hyd o amser fod.
- **Hynafedd gwneud penderfyniadau:** Rhaid i'r penderfyniad gael ei wneud gan swyddog yr heddlu o hynafedd priodol ac mae gennym ddiddordeb mewn barnau ar ba reng ddylai hyn fod; rydym yn credu y gallai rheng Uwch-aroogydd neu uwch fod yn addas.
- **Trosolwg a gwiriadau a mantolion:** Byddai angen cael trosolwg annibynnol o'r defnydd o rym o'r fath, a byddem yn rhagweld bod angen cymeradwyaeth barnwrol o flaen llaw, gyda threfniadau yn caniatáu dilysiad dilynol mewn amgylchiadau ble nad oedd hynny'n bosibl. Efallai y byddai hefyd angen rhoi gwybod i'r Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau er mwyn cael cyfle i herio neu gwestiynu'r angen am gyrffiw (ond ni fyddai'n ymwneud â'r penderfyniad gwreiddiol i osod un).
- **Rhybudd:** Byddai angen rhoi rhybudd priodol i bobl o fewn parth y cyrffiw ac i wneud trefniadau i'r rhai sydd angen bod allan am resymau cyfiawn (er enghraifft, gweithwyr argyfwng).
- **Toriad:** Er mwyn osgoi troseddoli diangen, nid ydym yn argymhell gwneud bod allan mewn parth cyrffiw yn drosedd. Fodd bynnag, fel gyda grymoedd gwasgaru presennol, rydym yn ystyried a ddylai fod yn drosedd i dorri cyflwyniad dilynol gan yr heddlu i adael yr ardal. Mae gennym ddiddordeb mewn barnau ar beth allai fod yn gosb briodol, a beth fyddai'n cyfansoddi effaith ataliol.

ATALIAD

3.13 Mae gan y Llywodraeth gyfrifoldeb i ddiogelu'r cyhoedd rhag niwed. Mae ganddi hefyd gyfrifoldeb i gadw pobl ifanc yn ddiogel, ac i'w hatal rhag peryglu eu cyfleoedd eu hunain mewn bywyd. Mae'r dystiolaeth yn awgrymu mai cyfartaledd oedran trosedd gyntaf yw 15 a'r cynharaf mae rhywun yn dechrau troseddu, y mwyaf tebygol maent o fynd

ymlaen i yrfa droseddol hir. Mae hefyd yn dweud wrthym fod troseddu gan bobl ifanc yn aml yn digwydd mewn grŵp, a bod ffactorau penodol, megis alcohol, defnydd o gyffuriau ac amser a dreuliyd oddi wrth oruchwyliaeth oedolion oll yn gysylltiedig â risg uwch o droseddu. Felly rydym yn awyddus i gael barn ar p'un a oes grymoedd atodol a allai helpu'r heddlu i atal troseddu – yn arbennig troseddu ieuenctid lleol – cyn ei gychwyn heb droseddoli pobl yn ddiangen.

3.14 Un enghraifft fyddai i wneud cyrffiw yn un o'r amodau y gellir ei atodi i **rybudd amodol**. Mae rhybudd amodol yn benderfyniad allan o'r llys ar gyfer troseddau lefel isel, sydd ar gael i oedolion ac sy'n cael ei brofi mewn pum ardal ar gyfer pobl ifanc. Rhaid i'r amodau y gellir eu hatodi ar hyn o bryd fod i ailsefydlu neu unioni (er bod amod cosb ariannol ar gael mewn pum ardal brawf). Gallai'r amodau hyn gynnwys cyfyngiadau, megis cyrffiw, pe byddai hynny wedi ei bennu i fod yn addas i helpu ailsefydlu troseddwr neu unioni'r niwed maent wedi achosi. Gallai atodi cyrffiw i rybudd amodol atal troseddolrwydd lefel isel neu gychwynnol cyn iddo ddal gafael trwy gyfyngu ar symudiadau troseddwr ar adegau pan fyddant mwyaf tebygol o gyflawni troseddau pellach. Gallai hyn brofi i fod yn fodd arbennig o ddefnyddiol o unioni ymddygiad person ifanc – er enghraifft ble mae grwpiau o gyfoedion yn ffactor yn y troseddu.

YSTYRIAETHAU POLISI

3.15 Rydym yn argymhell gwneud cyrffiw yn un o'r opsiynau cydnabyddedig ar gyfer amodau adsefydlu y gellir eu hatodi i rybudd. Byddai'n bwysig i ni fod hyn yn gymesur, briodol ac yn gyraeddadwy ac ni ddylai atal troseddwr rhag cael mynediad i'w cartref, gweithle neu lefydd addoli crefyddol neu addysg, neu amharu'n amhriodol fel arall ar angenrheidiâu eu bywyd dyddiol. Nid ydym yn credu y byddai'n briodol i orfodi'r math hwn o gyrffiw i ddibenion diogelu'r cyhoedd ble mae lles y cyhoedd yn debygol o alw am erlyniad (ac mewn sawl achos bydd lles y cyhoedd yn parhau i alw am erlyniad yn y llys). Mae'r ymgynghoriad yn ceisio ystyried yr

agweddau allweddol canlynol o gynnig o'r fath:

- **Cwmpas:** Byddai cyrffiw wedi ei atodi i rybudd amodol yn cael eu cynnig ar gyfer adegau penodol o fewn cyfnod wedi ei ddiffinio, ac mae gennym ddiddordeb mewn gwybod beth allai'r rhain fod. Gallai swyddog yr heddlu neu erlynydd, er enghraifft, argymhell cyrffiw o bedwar nos Wener olynol mewn sefyllfa ble mae rhywun wedi cymryd rhan mewn ymddygiad troseddol yn ystod yr adegau hynny.
- **Euogrwydd a chydysyniad:** Fel gyda phob rhybudd amodol, byddai angen i'r troseddwr gyfaddef i'r drosedd a chytuno i dderbyn rhybudd amodol a'r amodau arfaethedig (yn cynnwys cyrffiw). Rhaid i'r rhybudd amodol hefyd gael ei lofnodi i ddynodi bod y troseddwr yn deall beth maent yn ymroi iddo.
- **Delio â risg ac ymddygiad troseddol:** Wrth ystyried a yw rhybudd amodol yn briodol, byddai angen i'r swyddog yr heddlu neu erlynydd ystyried y risg o aildroseddu a gyflwynir gan y troseddwr ac ystyried unrhyw drefniadau cyrffiw allai fod yn briodol i ddelio â nhw.
- **Toriad:** Os torrir cyrffiw, mae'n debygol iawn y bydd y troseddwr yn cael ei erlyn mewn llys am y drosedd wreiddiol. Byddem yn croesawu barnau ar oblygiadau hyn, yn arbennig i bobl ifanc.

3.16 Ni fyddai defnyddio cyrffiw yn rhan o rybudd amodol angen deddfwriaeth sylfaenol, ond byddai angen addasu'r Cod Ymarfer a gyhoeddwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder a chanllaw a gyhoeddwyd gan y Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus i egluro bod cyrffiw yn opsiwn sydd ar gael i swyddogion yr heddlu ac erlynywyr.

3.17 Efallai y bydd grymoedd eraill allai helpu'r heddlu i ddilyn ymagwedd fwy ataliol i droseddau lleol neu droseddau ieuenctid, ac rydym yn awyddus i glywed barn ymarferwyr a'r cyhoedd ynglŷn â beth ydynt. Mae gan rieni hefyd rôl amlwg o ran bod yn gyfrifol am leoliad ac ymddygiad eu plant, a byddai gennym hefyd ddiddordeb mewn barnau ar sut i'w hannog i chwarae eu rhan i atal troseddau ieuenctid.

Pennod 4: Cwestiynau ymgynghori

Gallwch ymateb i unrhyw neu bob un o'r adrannau yn yr ymgynghoriad. Y dyddiad cau ar gyfer tri rhan yr ymgynghoriad yw Dydd Gwener 13 Ionawr 2012.

Gallwch gwblhau'r ffurflen ar-lein yn <http://www.homeofficesurveys.homeoffice.gov.uk/v.asp?i=41428bwhlr>. Neu, gallwch gopïo a gludo'r cwestiynau yn y PDF i ddogfen Word ac anfon eich ymateb mewn neges e-bost at PolicePowers@homeoffice.gsi.gov.uk, neu trwy'r post at Police Powers Consultation, Public Order Unit, 5th Floor, Fry, Home Office, 2 Marsham Street, Llundain SW1P 4DF.

Rhowch resymau dros eich atebion ac enghreifftiau neu fanylion o brofiad ble fo'n bosibl. Nid oes rhaid i chi gyfyngu'ch atebion i'r blychau, gellir darparu atebion mwy helaeth ar ffurf dogfen Word.

Nodwch os ydych yn ymateb fel unigolyn neu a ydych yn cynrychioli barnau sefydliad. Os ydych chi'n ymateb ar sail sefydliad, nodwch yn glir pwy mae'r sefydliad yn cynrychioli; sail eich profiad; a ble fo'n berthnasol, sut y casglwyd barnau'r aelodau.

Enw (dewisol)

Rôl (dewisol)

Sefydliad

Gwybodaeth ychwanegol

CWESTIYNAU AR ADRAN 5 Y DDEDDF TREFN GYHOEDDUS

1. A ydych chi'n meddwl bod yn wahaniaeth clir rhwng geiriau ac ymddygiad 'sarhaus' ac ymddygiad a geiriau 'ymosodol'? Rhowch enghreifftiau.

2. Yn eich profiad chi, a yw geiriau ac ymddygiad 'sarhaus' yn llai difrifol na geiriau ac ymddygiad 'ymosodol'. Rhowch enghreifftiau.

3. Yn eich barn chi, a yw cael geiriau ac ymddygiad 'sarhaus' fel trosedd yn cyfyngu pobl rhag mynegi eu hunain yn agored?


4. Yn eich barn chi, a fyddai cael gwared ar y gair 'sarhaus' o adran 5 yn cael unrhyw effaith arbennig ar grwpiau penodol? Rhowch enghreifftiau.

5. Os oes gennych bryderon ynglŷn â chadw'r gair 'sarhaus' yn adran 5, allwch chi esbonio a yw hyn oherwydd dehongliad o'r gair neu'r ddeddfwriaeth ei hun?


6. Yn eich barn chi, a yw'r amddiffyniad 'rhesymoldeb' ar gyfer 'sarhaus' (sy'n amddiffyniad statudol yn adran 5) yn amddiffyniad digonol yn erbyn camddefnydd?

7. Yn eich barn chi, a yw canllaw i swyddogion yr heddlu yn glir ar pryd mae ymddygiad sarhaus yn drosedd ac y dylid arestio ac a yw'n ddigon clir i sicrhau cysondeb penderfyniadau?

8. A ydych chi'n meddwl bod y trothwy ar gyfer arestio dan adran 5 wedi ei osod ar y lefel briodol?



9. Rhowch unrhyw sylwadau atodol yn y blwch isod.



CWESTIYNAU AR RYMOEDD I DYNNU GORCHUDDION WYNEB

1. Dan ba amgylchiadau fyddai'n briodol i ofyn am dynnu gorchudd wyneb heb awdurdodiad blaenorol gan uwch swyddog?

2. Beth ddylai fod yr ysgogydd dan y grym newydd os nad oes angen awdurdodiad gan uwch swyddog?


3. A ydych chi'n meddwl y gallai grymoedd ehangach i alw am dynnu gorchuddion wyneb amharu â rhyddid unigolion?

4. **A ydych chi'n meddwl y gallai canllawiau, hyfforddiant a monitro helpu sicrhau cysondeb penderfyniadau swyddogion? Rhwch enghreifftiau.**


5. **A ydych chi'n meddwl y dylai cosbau am wrthod cydymffurfio â galw i dynnu gorchudd wyneb fod yn fwy llym? (Ar hyn o bryd rydych yn atebol i garchariad am gyfnod o ddim mwy nag un mis neu i ddirwy o ddim mwy na £1,000 neu'r ddau).**

6. **Yn eich barn chi, a ddylai swyddogion orfod esbonio'r rheswm dros alw i dynnu gorchuddion wyneb?**

7. A ydych chi'n meddwl y dylai swyddogion orfod cyflawni'r adnabyddiaeth mewn preifatrwydd rhesymol, os gofynnir am hynny, er y gallai achosi oedi yn yr ymateb?



8. Rhowch sylwadau atodol yn y blwch isod.



CWESTIYNAU AR RYMOEDD I ORFODI CYRFFYW

1. Beth yw'ch barnau ar y cynnig i roi pŵer cyffredinol, cyfyngedig i'r heddlu i orfodi cyrffyw?

2. A ydych chi'n meddwl y dylid cael cyfyngiadau ar gwmpas daearyddol a hyd grym cyrffyw o'r fath? Os felly, beth ydych chi'n meddwl fyddai'r cyfyngiadau priodol?

3. Beth ydych chi'n feddwl fyddai'n gosb briodol am dorri cyfarwyddyd i adael parth cyrffyw?


4. Beth yw'ch barnau o'r cynnig i wneud cyrffyw yn un o'r opsiynau ailsefydlu cydnabyddedig ar gyfer

rhybudd amodol?


5. Dan ba amgylchiadau allai cyrffiw fod yn ymateb priodol i droseddu lefel isel?

6. A oes unrhyw rymoedd eraill y credwch fyddai'n helpu'r heddlu i ddilyn ymagwedd fwy ataliol i droseddau lleol, yn arbennig troseddau ieuenctid? Os felly, beth ydynt?

7. Pa rôl ydych chi'n credu ddylai rhieni gael mewn atal troseddau ieuenctid lleol? Sut ellid eu hannog i wneud hynny?



8. Rhowch sylwadau atodol yn y blwch isod.



CYDLYNYDD YR YMGYNGHORIAD

Os oes gennych gŵyn neu sylw i'w roi ynglŷn ag ymagwedd y Swyddfa Gartref i ymgynghori, dylech gysylltu â Chydlynnydd Ymgynghori'r Swyddfa Gartref, Adam McArdle. PEIDIWCH ag anfon eich ymateb i'r ymgynghoriad hwn at Adam McArdle. Mae'r Cydlynnydd yn gweithio i hyrwyddo safonau arfer gorau a osodwyd gan y Cod Ymarfer, yn cynghori timau polisi ar sut i gyflawni ymgynghoriadau ac yn ymchwilio cwynion a wnaed yn erbyn y Swyddfa Gartref.

Nid yw'n prosesu'ch ymateb i'r ymgynghoriad hwn.

Gellir anfon e-bost at y cydlynnydd yn:
Adam.McArdle2@homeoffice.gsi.gov.uk

neu ysgrifennu ato yn:
Adam McArdle, Consultation Co-ordinator
Home Office
Performance and Delivery Unit
Better Regulation Team
3rd Floor Seacole
2 Marsham Street
Llundain
SW1P 4DF



Swyddfa Gartref

ISBN: 978-1-84987-580-6

Cyhoeddwyd gan y Swyddfa Gartref © Hawlfraint y Goron 2011